1) Gorsaf Tanwydd Petrol

Yn ychwanegol at y cyfleuster disel presennol a gynigir gan Gyngor Gwynedd, mae aelodau Grŵp Defnyddwyr Harbwr Bermo wedi awgrymu y byddai o fudd i awdurdod a defnyddwyr yr harbwr pe byddai cyfleuster tanwydd petrol hefyd yn cael ei gynnig.

Awgrymwyd y byddai cyfleuster o'r fath nid yn unig yn annog cychod hwylio modur i ymweld a darparu incwm ychwanegol i awdurdod yr harbwr, ond roedd y diffyg dewis yn y Bermo yn annog pobl i deithio gyda swm mawr o danwydd mewn cynhwysyddion ac nid oedd hyn yn ddelfrydol a gallai fod yn beryglus. Awgrymwyd hefyd bod perchnogion cychod oedd yn llenwi tanciau o gynhwysyddion, yn aml heb yr offer cywir, yn gallu bod yn beryglus o ran halogi'r harbwr a'r amgylchedd morol.

Cydnabyddwyd y peryglon posib, y cyfyngiadau a'r trafferthion o ddarparu cyfleuster o'r fath, ond roedd aelodau GDHB yn annog CG i o leiaf ystyried gwelliant o'r fath i gyfleusterau'r harbwr.

2) Angorfeydd

i) O safbwynt y taliadau angorfeydd blynyddol, pe na byddai angorfa wedi ei defnyddio a oedd yna bolisi i godi tâl is neu ffi cadw? Os nad oedd, a fedrai'r Cyngor ystyried polisi o'r fath?
ii) Cadarnhad o fanyleb offer gwely'r môr. A oes yna unrhyw amodau ar gyfer offer gwely'r môr, ydy hyn yn gymwys i'r holl angorfeydd neu a yw'r rhai ar gyfer angorfeydd dros dro yn wahanol i angorfeydd parhaol? Pwy sy'n gyfrifol am angorfeydd, dros dro a pharhaol, pe byddent yn llusgo ac yn achosi niwed i drydydd parti?
iii) O safbwynt poeni am ddiogelwch roedd aelodau GDHB yn gofyn fod angorfeydd y Tri Chopa yn y fynedfa i'r harbwr yn cael eu marcio gyda bwi goleuedig.

3) Bysedd y pontŵn

Pam nad yw bysedd y pontŵn wedi bod yn eu lle yn ystod y tymor yma? Os yw CG yn ystyried bod problem gyda nhw, a oes unrhyw gynlluniau i ddatrys y broblem ac i'w hailosod ar gyfer y tymor nesaf?

4) Pysgod Marw
Yn ystod mis Medi gwelwyd gweddillion dros 270 o hyrddiaid (*mullet*) wedi eu ffiledu yn llanast yn yr harbwr. Mynegwyd pryder gan aelodau GDHB am faterion amgylcheddol a'r effaith y gallai pysgota eithafol o'r fath ei gael ar boblogaeth yr hyrddiaid. A oedd y Cyngor yn ymwybodol o hyn, ac os felly, a yw wedi neu'n bwriadu gweithredu unrhyw gamau?